

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 1af o Fedi 2021 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Hedd Pugh, John P Jones, Catrin Jones, Arfon Hughes, Berwyn Harding, Geraint Morgans, Sion Alun Roberts, Robin Hughes, Rhys Davies a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is-Gadeirydd y Cynghorydd Hedd Pugh. Roedd ymddiheuriad gan Cyng. Idris Jones a'r Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd). Estynwyd croeso arbennig i'r Cyng Rhys Davies a oedd yn mynychu am y tro cyntaf. Dywedodd y Cadeirydd fod yn braf gweld to ifanc yn cymryd diddordeb yng ngwaith y Cyngor Cymuned.
2. Nodwyd gyfle i dderbyn cyflwyniadau gan y cyhoedd. Nid oedd neb yn bresennol felly fe symudwyd ymlaen gyda'r cyfarfod. (cadarnhawyd y byddai yr eitem yma ar yr agenda ymhob cyfarfod o hyn ymlaen)
3. Cofnodion cyfarfod 21.07.21 – nodwyd fod Cyng. John P Roberts (Cyngor Gwynedd) yn bresennol yn y cyfarfod yma, a gyda'r cywiriad yma, cadarnhawyd y rhain fel cofnod cywir ar gynnig Cyng. Catrin Jones a'i eilio gan Cyng. Berwyn Harding.
4. Materion yn codi
 - a) **Materion Priffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd a Chefnffyrdd ers y tro diwethaf. O ran y ffordd heibio Eglwys Mallwyd, nodwyd fod y Cyngor wedi gwneud y gwaith o'r blaen, ac y dylent felly gymryd cyfrifoldeb. Roedd angen ysgrifennu ymhellach ynglyn a Maes Parcio yn y Plas sydd yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd.
 - b) **Mynwentydd yr ardal** – adroddwyd am brisiau i law, ac ar gynnig Geraint Morgans a'i eilio gan John P Jones, cytunwyd ar bris Andrew Johnson am wneud y 5 cofeb ym mynwent Dinas ac 1 gofeb ym mynwent Mallwyd am gyfanswm o £500 a TAW. (cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng Catrin Jones pan drafodwyd hyn, a gadawodd yr ystafell)
 - c) **Giat ar Bont Dolybont** – adroddwyd fod bwriad cael cyfarfod, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Peter Rutherford i gael gwybod y sefyllfa ddiweddaraf. Dywedwyd yn gryf fod rhaid cael giat yno, fel sydd wedi ei addo.
 - d) **Is-Bwyllgor Cyllid** – adroddwyd yn fyr gynnwys y cyfarfod a gynhaliwyd ymlaenllaw. Byddai'r papurau yn cael eu danfon allan gyda'r pwyllgor nesaf.
 - e) **'Model protocol Datrysiadau Lleol'** - roedd y cyfan wedi ei danfon ymlaen i'r holl Gynghorwyr ar yr 2ail o Awst. . Darllenwyd cynnwys y cylch gorchwyl i bawb er mwyn atgoffa o'r cynnwys – byddai yn golygu cael cyfarfod o'r Clerc a'r Cadeirydd gyda'r achwynwyr, a'r aelod y gwnaed cwyn yn ei erbyn i geisio cael datrysiad – eu rol fyddai peidio dyfarnu ar y gwyn, ond yn hytrach geisio cytuno sut y gellid datrys y mater mewn ffordd gyfeillgar. Ar gynnig Catrin Jones a'i eilio gan Geraint Morgans, a gyda chefnogaeth mwyafrif y Cynghorwyr, penderfynwyd i fabwysiadu y cylch gorchwyl. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyng Arfon Hughes a fyddai yn fodlon trefnu cael cyfarfod i drafod hyn, ond mynegodd nad oedd yn fodlon. Gofynnodd y Cyng Geraint Morgans pahan na ellid trafod y mater yn awr gan fod angen dod a'r mater i ben. Yng ngwyneb y sefyllfa, ac y gallai y trafodaethau fod yn sensitif, penderfynwyd, ar gynnig Catrin Jones a'i eilio gan John P Jones i gynnal rhan nesaf y drafodaeth yn gaeedig.
 - f) **Sedd wag** – ward Mawddwy – nodwyd fod hysbysiad wedi bod allan, ynghyd ag ar y wefan, yn rhoi y cyfle i lenwi y sedd drwy etholiad, ond ni chafwyd ymateb.

Felly roedd hysbysiad am y bwriad i gyfethol wedi ei osod yn gyhoeddus ers y 25ain o Awst, ac a fyddai yn parhau tan y 15fed o Fedi. Adroddodd y Clerc ei fod wedi cael un ymateb eisoes, sef gan Eirian Wyn, Tynybraich, a darllenwyd yr e-bost. Byddai y mater yma ar agenda y cyfarfod nesaf ar y 13eg o Hydref.

5. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i'r Cyngor.

Aethpwyd ymlaen i ddewis Cadeirydd I'r Cyngor yn dilyn ymddiswyddiad Berwyn Hughes.

Ar gynnig John P Jones a'i eilio gan Berwyn Harding, penderfynwyd ar enw yr Is Gadeirydd Hedd Pugh i ddod yn Gadeirydd y Cyngor am weddill blwyddyn 2021-22.

Yna aethpwyd ymlaen i ddewis is-Gadeirydd. Ar gynnig Berwyn Harding a'i eilio gan Sion Alun Roberts, penderfynwyd ar enw Cyng Catrin Jones fel Is-Gadeirydd y Cyngor am weddill blwyddyn 2021-22.

6. Materion Cynllunio

Adroddwyd fod un cais wedi ei gylchredeg, dyddiedig 24ain Awst, sef;

NP5/74/410A – cyflwyno manylion yn weddill yn dilyn Caniatad Cynllunio NP5/74/410 dyddiedig 20/07/2007 a NP5/74/PIAW410 dyddiedig 8/12/2010 – Tir ger Y Llwyn, Dinas Mawddwy.

Gwelwyd fod yn anodd cael diweddariad clir o'r hyn oedd ar wefan y Parc, a gwelwyd fod rhaid cael mwy o wybodaeth, Byddai'r Clerc yn danfon manylion pan fyddai gwybodaeth i law.

7. Materion Cyllid.

a) Nodwyd fod ail-ran y prasept i law, sef swm o £4750. Nodwyd balans y cyfrifon sef Cyfri Cyfredol £10308.43, Cyfri Claddedigaeth £2,320.24 Cyfri Cadw £768.68.

(atgoffwyd nad oedd rhan gyntaf cydnabyddiaeth y Clerc wedi ei dalu hyd yma)

Cyfeiriwyd yn fyr at sefyllfa gwariant y Cyngor o'i gymharu a'r gyllideb, a oedd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd.

b) Nodwyd lythyr i law gan Hannah Gwenllian Jones sydd yn cynnal gwefan y Cyngor Cymuned, a oedd yn nodi cynnydd yn y ffioedd i £250. Nid oedd unrhyw gynnydd wedi bod ers 8 mlynedd. Ar gynnig John P Jones a'i eilio gan Geraint Morgans, cytunwyd ar y cynnydd yma.

8. Gohebiaeth.

a) Cyfeiriwyd yn llawn lythyr y Parch Miriam Beecroft ynglyn a choeden ym mynwent Mallwyd – roedd hyn wedi ei ddanfod i'r Cynghorwyr ar y 7fed o Awst. Roedd Cyng Hedd Pugh a'r Clerc wedi ei chyfarfod ar y safle i gael trafod cychwynol ar y mater, a gweld yr union leoliad. Gwelwyd fod y goeden union ar y terfyn y fynwent a llain o dir sy'n perthyn i'r Eglwys. Nodwyd hefyd fod yna goed tebyg angen edrych arnynt, un yn y fynwent ac un ar lain o dir yn perthyn i'r Eglwys. Gwelwyd y dylid gofyn i'r Eglwys yn y lle cyntaf a oedd ganddynt unrhywun a fyddai yn medru gwneud y gwaith, neu dod o hyd i rywun. Byddai rhaid trafod prisiau wedyn cyn dod i benderfyniad.

b) Nodwyd ohebiaeth am Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – a diolchwyd i'r Cyng Catrin Jones am sicrhau y byddai yna ddarpariaeth rhithiol dros y ffon pe bai angen.

- c) Nodwyd Ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Clercod yng Nghymru – a'r argymhellion y dylai Clerc gael cymwysterau i'r swydd. Tra bod gobaith na fyddai hyn yn berthnasol i ni, nodwyd bwysigrwydd cael Clerc gyda gwybodaeth lleol, bod profiad yn bwysig, ac y byddai Clerc gyda chymwysterau yn golygu llawer mwy o gost.
- d) Roedd llythyr gan y Parc Cenedlaethol i law ynglyn a dathliadau y Parc yn 70oed, ac yn cynnig 'Pecyn Plannu Coed' i bob Cyngor Cymuned a Thref yn Eryri. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar gynnis John P Jones a'i eilio gan Geraint Morgans i beidio derbyn y cynnis yma.
- e) Nodwyd wybodaeth am gyfarfod Meirionnydd o Un Llais Cymru am 7yh ar yr 8fed o Fedi.
- f) Nodwyd ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo – byddai hwn ar yr agenda y tro nesaf.
- g) Nodwyd e-bost gan Cyng Sirol John P Roberts ynglyn a ymgeisydd i'r Cyngor Cymuned, a'r ymateb llawn gan y Clerc gyda chopi i bawb o'r Cynghorwyr.

9. Unrhyw Fater arall.

- a) Adroddwyd fod angen gwneud trefniadau Sul y Cofio eleni, a phenderfynwyd y dylai'r Cyngor Cymuned gymryd rhan fel arfer. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Miriam Beecroft, ac hefyd i brynu torch. Dywedodd Cyng Hedd Pugh y byddai yn clirio rhai llynedd oddiyno, a gwelwyd y dylid danfon neges o ddiolch i Arwyn am dacluso oddiamgylch y gofgolofn. Trafodwyd y dylid ail-wneud y llythrennau ar y gofgolofn, ac y dylid son wrth Derek Davies yn y lle cyntaf. Gwelwyd fod yr amser yn brin i wneud hyn at eleni, ond roedd yn werth ceisio ymdrechu i wneud hyn.
- b) Roedd canllawiau y grid gwartheg o dan Cefngwyn, Aberangell angen sylw, gan fod y canllawiau wedi torri.
- c) Roedd dwr yn parhau yn bryder ar Bwlch y Groes ger y grid gwartheg, ac hefyd ar y rhiw yn uwch i fyny.
- d) Gofynnwyd a oedd yna unrhyw ddatblygiadau yn dilyn y cyfarfodydd a gafwyd yn Eglwys Llanymawddwy, a chadarnhaodd y Clerc nad oedd wedi clywed gair gan neb.
- e) Nodwyd fod ffens ar ochr Pont Minllyn (y bont newydd) wedi cwmpo (ochr Celyn Brithion) ac y dylid ysgrifennu i'r Asiantaeth cefnffyrdd.
- f) Gofynnwyd am y diweddaraf gyda hen bont Minllyn, a phwy sydd a chyfrifoldeb.
- g) Nodwyd e-bost Cyng John P Roberts ei fod wedi trefnu i lori ail-gylchu fynd i Cwm Cewydd, a bod hyn hyn gweithio yn dda.
- h) Nodwyd fod biniau yn Abercowarch yn edrych yn fler, ond roedd dealltwriaeth y byddant yn cael eu symud yn fuan.
- i) Nodwyd nad oedd unrhyw ddatblygiadau gyda'r Hen Fynwent. Hefyd roedd angen ethol cynrychiolydd ar bwyllgor yr hen fynwent yn dilyn ymddiswyddiad Berwyn Hughes. Gwelwyd y gellid gwneud hyn y tro nesaf.

Cyn terfynnu, mynegwyd ein dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Catrin ac Andrew ar eu priodas.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER
13eg o Hydref 2021, 8.00yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.30yh.

